y dinesydd

Ionawr/Chwefror 2001 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 260

# Colli Moelwyn



Er mis Medi y llynedd ni fu Moelwyn Daniel Preece yn y mannau yr arferai fod ac ymhlith ei gyfeillion. Cawsai strôc ar 24 Medi yn ystod yr oedfa hwyrol yn Salem, Tregannau. Er iddo lwyddo i oresgyn effeithiau'r trawiad hwnnw. Fe'i cymerwyd ef yn ôl i Ysbyty'r Brifysgol yn fuan wedi'r Nadolig a bu farw yno'n dawel ar 9 Ionawr. Cydymdeimlwn yn wir â'i weddw, Win a'i feibion, Alun a Ceri a'u teuluoedd a'i chwiorydd.

Un oedd Moelwyn a ddaliai ei argyhoeddiadau yn gryf. Fel blaenor yn Salem ni chaed neb ffyddlonach, ond nid digon hynny. Daeth yn llywydd yr Henaduriaeth. Mynnodd ddechrau a chynnal Ysgol Sul yn yr Eglwys Newydd a phwy ond Moelwyn a drwythai'r plant yn "Y Rhodd Mam". Roedd yn llywydd Cell Gymraeg Caerdydd o Gristnogion yn erbyn Poenydio a llwyddiant diweddar, meddai, oedd cynnal "Cwrs Alpha" am ddeg wythnos yn Salem. Cai gymaint o gysur a sicrwydd rhwng cloriau ei Feibl a derbyniai ddylanwad hynny ar ei fywyd.

Yn yr un modd roedd dysgu'r Gymraeg yn genhadaeth iddo. Am bron deugain mlynedd bu'n athro'r Gymraeg fel ail iaith, yn ei fro enedigol yng Nghymer Afan ac wedyn yng Nghaerdydd, -er mwyn i Ceri'r mab fedru mynd i Ysgol Rhydfelen. Moelwyn yn fwy na neb oedd cenhadwr y Dull Union o ddysgu'r Gymraeg, sef ei dysgu heb ddefnyddio nemor air o Saesneg yn y gwersi. Ceid AEM ac Adrannau Addysg colegau'r Brifysgol yn ei ganmol am ei ddygu ysbrydoledig a gweler sylw Bobi Jones arno yn ei gyfrol "O'r Bedd i'r Crud".

Bu Moelwyn yn llywydd Tŷ'r Cymry Yn Heol Gordon Y Rhath am ugain mlynedd, gan ildio y llynedd oherwydd effeithiau damwain car a gafodd fis bach y llynedd. Pwy all fesur cymwynas felly? Mae pedair elusen gofrestredig yn defnyddio Ty'r Cymry a Moelwyn oedd cadeirydd dwy ohonynt, - Ymddiriedolaeth Bryn Taf a, hyd yn ddiweddar, Cronfa Gwyn Daniel.

Am ddegawdau, Moelwyn oedd prif swyddog y colegau i UCAC, a chenhadaeth arall iddo oedd ennill myfyrwyr yn aelodau o'r Undeb. Roedd yn is-lywydd a llywydd cenedlaethol UCAC ganol y chwe degau.

Unwaith y cydiai Moelwyn yng nghorn yr arad, doedd dim ildio. Bydd llawer cwys yn llai celfydd bellach heb ei bendantrwydd ef.

**LM**

* * * * * * * * * * *

**Er Cof am**
**MOELWYN DANIEL PREECE**
**1920-2001**
**Yr Eglwys Newydd**

Ganed, 17 Gorffennaf 1920, ym Mryn-troed-gam, ger Port Talbot; athro ysgol a fu'n cyflwyno'r Iaith gydag ymroddiad nodedig i genedlaethau o blant o gartrefi di-Gymraeg; blaenor yng Nghapel Salem, Treganna, Caerdydd; mawr o gorff, mawr ei dynerwch a'i gariad hefyd; cyfaill yr anghenus; ymgyrchydd di-flino ar ran y difreintiedig; anfonai gardiau a llythyrau yn gyson at garcharorion cydwybod; Cadeirydd Cell Gymraeg Cristnogion yn Erbyn Poenydio Caerdydd; by farw 9 Ionawr 2001; claddwyd yn Abaty Margam, 13 Ionawr 2001.

*'Deuwch ataf fi bawb sy'n flinderog ac yn llwythog ... Cymerwch fy iau arnoch ... a chwi a gewch orffwystra i'ch eneidiau. Canys fy iau sydd esmwyth a'm baich yn ysgafn.'*
*Math. 11:28-30*

**Ti oet dderwen ysblennydd - yn gysgod**
**I'r di-gwsg mewn stormydd;**
**Eu hiau ymhob rhyw dywydd,**
**Hafan deg hyd derfyn dydd.**

Robin Gwyndaf
22.1.2001

## Seren aur i Lorraine!



Llongyfarchiadau i Lorraine Rogers, Cwmni Argraffu Arloesol Ystum Taf a chynhyrchydd papur bro *Y Dinesydd*, ar yr anrhydedd a ddaeth i'w rhan yn Ionawr pan y'i dewiswyd yn Wraig Fusnes y Mis mewn cystadleuaeth a drefnir gan Gwmni Teledu Zenana Aberystwyth, papur newydd Y Cymro, Chwarae Teg, a Menter a Busnes. Cyflwynwyd y wobr o £250 i Lorraine ar y rhaglen 'Cwmni Hon' ar S4C Digidol yn Ionawr. Sefydlodd y cwmni hefo'i gŵr bymtheng mlynedd yn ôl ac mae'r cwmni wedi mynd o nerth i nerth ers hynny. Dysgodd Lorraine Gymraeg pan oedd hi'n ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf a graddiodd yn y Gymraeg wedi hynny. Mae ei phlant i gyd wedi derbyn addysg Gymraeg. Llongyfarchiadau calonogol unwaith eto Lorraine a diolch i chi am eich holl waith gyda chynhyrchu'r *Dinesydd*.

# Y Dinesydd

**Ion./Chwef. 2001, Rhif 260.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygyddion y rhifyn hwn:**
Gwilym E. Roberts a Garwyn Davies
**Golygyddion y rhifyn nesaf:**
Sioned James a Siân Eleri Jones

**NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.**

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Mawrth 2001 at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 19 Chwefror:**
Sioned James, 27 Norfolk Street, Treganna, Caerdydd CF5 1JY (Ffôn: 2031 0715, E-bost: jamess@htv-wales.co.uk)
**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754, E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

**DOSBARTHU**

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

**HYSBYSEBION**

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041 8270; E-bost: MennaGwyn@aol.com)

**CYFRANIADAU ARIANNOL**

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## Diolch o'r *Dinesydd*

Ers cyhoeddi'r rhifyn diwethaf o'r *Dinesydd* mae'r canlynol wedi cyfrannu tuag at gronfa'r papur, sef: Salem, Treganna; Eglwys y Crwys; Eglwys Annibynnol y Barri; Tabernacl yr Ais a Chapel Ebeneser.

Diolch o galon i bawb am eu cefnogaeth ymarferol.

### FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................

.............................................. Cod Post: ...................

Rhif Ffôn: ....................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

### FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................

.............................................. Cod Post: ...................

Rhif Ffôn: ....................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 20** **Ion./Chwef. 2001**



**Ar Draws**

2. Cael y negyddol mewn dim perffaith (5)
5. Llef yn swnio'n hir (4)
7. Y ffordd 'nôl mewn sbel o ehudrwydd (4)
8. Edrych Wil o gwmpas yn aflwyddiannus (8)
9. 'Da yw'r groes, a da yw ____,
Da yw profedigaeth llym' W.W. (7)
11. Fflag yn troi'n dân (4)
12. 'Y bardd trwm ___ ___ ___ , y dwylaw
Na ddidolir rhagor' (3,4,6)
15. Hollt a chern (4)
17. Gwirionedd sylfaenol Gŵyr Ddoe, efallai (7)
19. 'Pa ___ ___ ___, i ti i'w gofio? (Salmau) (3,2,3)
21. Enw merch a rhin anwadal (4)
22. Canu amhersain am ffrwythau'r gollen (4)
23. Aderyn i'n bro anwadal (5)

**I Lawr**

1. '___ dy ffordd ar yr Arglwydd, ac ymddiried ynddo' (Salmau) (7)
2. Tegan dan do y maes (3)
3. Dim ci yn Lloegr a marc (5)
4. 'Rhowch iddo aberth ____
Ymgrymwch ger ei fron' (R.J.) (7)
5. Arweinydd fel gwawr i'r glust (3)
6. O'r wig daw eiddew (5)
10. Rhwygo baner - dyna'r diwedd (2,3)
11. Cas rhoi ffa iddi rywsut (5)
13. Dere Lis allan o'r felan! (7)
14. Aeron du berwedig yn achosi sgrechian (7)
16. Robert mewn mynegiant o foddhad er y tir corsog (5)
18. Troi benyw ar ei phen - dyna hyfdra! (5)
20. Dyheu am gnewyllyn cysur (3)
21. Rhua un bob yn ail darn (3)

**Atebion Croesair 19**

**Ar draws:** 1. Castell y Waun; 8. Lefel; 9. Diffuant; 10. Modrwyo; 11. Dyddio; 12. Nwyfus; 14. Ystanc; 18. Anfad; 19. Encilio; 21. Yr Alban; 23. Funud; 24. O flaen ei ddôr.

**I lawr:** 1. 1. Colomen; 2. Safadwy; 3. Edliw; 4. Ymdroi; 5. Anffodus; 6. Noa; 7. Twtio; 13. Undebol; 15. Aflonydd; 16. Clochdar; 17. Meinwe; 18. Addysg; 20. Cyfle; 22. A fo.

Derbyniwyd 13 o atebion a naw ohonynt yn hollol gywir. Danfonir y tocyn llyfr y tro yma at Meurig Jones, 6 Caewal Rd, Llandaf.

**Cystadleuaeth Ion./Chwef. 2001**: Noder y cyfeiriad newydd ar gyfer y gystadleuaeth: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 16 Chwefror 2001.

## Calendr y Dinesydd

**Gwener, 2 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd: Noson Deyrnged i Galedfryn yng ngofal y Parch. Huw Ethall, yn festri Tabernacl, Yr Ais, am 7.15 p.m.
**Llun, 5 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Tir Iarll.' Sgwrs gan Eirian E. Edwards, yng nghapel Bethany, Rhiwbina am 7.30 p.m.
**Mawrth, 6 Chwefror**
Darlith Goffa Islwyn, Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd: Darlith gan Daniel Huws, cyn-Geidwad Adran y Llawysgrifau, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ar 'Reciwsantiaid Gwent' am 5.30 p.m. yn Ystafell X/0.04, Estyniad Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd.
**Mawrth, 6 - Gwener 9, Chwefror**
Coleg Cerdd a Drama Cymru yn perfformio'r ddrama 'Cegin y Diafol' gan Siôn Eirian yn Stiwdio Caird, Adeilad Raymond Edwards am 7.45 p.m. Tocynnau a manylion pellach: 029-2039-1391.
**Gwener, 9 Chwefror**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Sgwrs gan Dr R. Alun Evans, yn festri Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.
**Llun, 12 Chwefror**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Sgwrs gan Bethan Lewis, Amgueddfa Rufeinig Caerleon, yn festri Eglwys Minny Street, am 7.30 p.m.
**Gwener, 16 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Llyfryddiaeth Cylchgronau Cymreig' gan Dr Huw Walters, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, am 7 p.m., yn Ystafell X/0.04, Estyniad Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd.
**Mawrth, 20 Chwefror**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Seiat Holi (Panel: Eleri Rogers, Haydn Thomas, Cassie Jones, Jeffrey Wright; Cadeirydd: Beti-Wyn James), yn festri Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, Sgwâr y Brenin, am 7.15 p.m.
**Mercher, 21 Chwefror**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Sgwrs gan Mrs Mair Williams, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon am 8 p.m.
**Iau, 1 Mawrth, Gŵyl Ddewi**
Eglwys Dewi Sant, Caerdydd, 7.30, Offeren ar Gân. Llywydd a phregethwr: Y Gwir Barchedig Ddr B.C. Morgan, Esgob Llandaf. Cenir am y tro cyntaf y gwaith comisiwn newydd: 'Offeren Dewi Sant' gan Geraint Lewis. Croeso i bawb.
**Mawrth, 2 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd: Cinio Gŵyl Ddewi yn Neuadd Aberdâr.
**Mawrth, 2 Mawrth**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Cinio Gŵyl Ddewi yng ngwesty Mount Sorrel am 7.30 erbyn 8.00 p.m. Gwestai: Dr Dylan Jones.
**Mawrth, 2 Mawrth**
Twmpath/Ceilidh, Clwb Trydan, 8 p.m.
**Llun, 5 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Noson yng nghwmni Merched y Garth (Arweinydd: Llinos Swain), yng nghapel Bethany, Rhiwbina am 7.30 p.m.
**Gwener, 9 Mawrth**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Swper Gŵyl Ddewi, yn festri Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m. Gwestai: Parch. Aled Edwards.
**Llun, 12 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Noson y Dysgwyr, yng nghwmni Falmai Griffiths yn festri Eglwys Minny Street, am 7.30 p.m.
**Gwener, 16 Mawrth**
'Golygu Cofnod y Cynulliad' gan John Emyr, am 7 p.m., yn festri Eglwys y Crwys, Richmond Road, Caerdydd.
**Mawrth, 20 Mawrth**
Darlith Goffa G. J. Williams, Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd: Darlith gan yr Athro John Rowlands, Aberystwyth, am 5.30 p.m. yn Ystafell X/0.04, Estyniad Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd.
**Mercher, 21 Mawrth**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Sgwrs gan Steve O'Regan, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon am 8 p.m.

*Er mwyn cynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*
*Mae'r Calendr hefyd ar safle we'r Dinesydd: http://www.dinesydd.uklinux.net/*

## Llongyfarchiadau

- i Glyn a Teleri Jones, Treganna ar enedigaeth Daniel Calan, eu cyntaf anedig ar Ddydd Calan.
- i Garmon Rhys, Treganna sy wedi bod yn ohebydd gyda "Golwg" ar ei benodiad fel newyddiadurwr yn Adran Wleidyddol y BBC. Hefyd dymunwn yn dda i'w frawd, Dr Gwion Rhys, Treganna a'i deulu ar dderbyn swydd fel meddyg teulu yn Nefyn. Bu gwraig Dr Gwion sef Menna yn athrawes yn Ysgol Iolo Morgannwg, y Bontfaen.
- i Marion Evans, Rhadur ar ei phenodiad fel Ymgynghorydd Ysgolion Cynradd i Esis. Bu'n brifathrawes Ysgol Gymraeg Llantrisant am flynyddoedd cyn hynny.
- i Iolo Evans a Rachael Solomon ar enedigaeth eu merch Alys ar 23 Tachwedd. Wyres gyntaf i John a Marian Evans, Rhadur.
- i Siwan Jobbins a Gavin Lloyd Jones, yr Eglwys Newydd ar enedigaeth eu hail fab, Gwion Morgan ar 4 Rhagfyr. Ŵyr arall i Alan a Cath Jobbins, Yr Eglwys Newydd a brawd bach i Gruffudd Alun.
- i Deian Creunant a Siân Eleri ar eu priodas yn ardal Aberystwyth ar 9 Rhagfyr. Cyarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ydy Deian.
- i Siôn a Lucy Maullin-Davies, Cyncoed ar enedigaeth Samuel Morgan a Jacob Rhys ar 31 Rhagfyr.
- i Geraint ac Alwen Bowen ar enedigaeth eu mab Bedwyr Hedd yn Ysbyty'r Brifysgol ar 14 Rhagfyr.

**CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN**

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .

**0845 6076070**

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

## Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Llinos Iorwerth, Ynys Môn gynt ar ei phenodiad fel rheolwraig gyllid gyda chwmni ymgynghorol Cysylltiadau Cyhoeddus Mistral yn Heol Eglwys y Gadeirlan yng Nghaerdydd. Bu'n gweithio i Fwrdd Croeso Cymru am bum mlynedd cyn hynny.

## Cydymdeimlir

- â theulu'r diweddar Ceris Griffiths gynt o Ynyshir a Llundain a fu farw yn Ysbyty Athrofaol Caerdydd ar 31 Rhagfyr. Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 12 Ionawr. Bu'n aelod o Gôr Hamdden Cymry Caerdydd sy'n ymarfer yn festri Minny Street.
- â Tony Lewis a'r teulu Sir Benfro ar farwolaeth ei fam Olwen Lewis yn Nhrefdraeth yn ystod mis Rhagfyr. Bu ei gŵr Tom yn fferyllydd yn Heol y Crwys, y Rhath am flynyddoedd cyn i'r teulu symud nôl at eu gwreiddiau yn Sir Benfro.
- â Ceri Morgan Gabalfa a'i deulu yn San Clêr ar farwolaeth ei fodryb Myriel Davies OBE, gweithwraig ddiflino dros waith y Cenhedloedd Unedig. Bu farw yn Llundain ar 20 Rhagfyr a bu'r angladd yn Amlosgfa Golders Green ar 29 Rhagfyr, ac yna bu gwasanaeth er cof amdani yng Nghapel Gibeon, Banc y Felin ar 4 Ionawr.
- â theulu'r diweddar John Richard Jenkins, ardal Parc Victoria a fu farw yn 44 oed ar 16 Rhagfyr wedi dioddef ers blynyddoedd o MS. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 21 Rhagfyr.
- â theulu'r diweddar Moelwyn Preece yr Eglwys Newydd (gynt o'r Bryn, Port Talbot) a fu farw'n dawel yn Ysbyty'r Brifysgol ar 9 Ionawr. Bu angladd breifat ar yr aelwyd yn Yr Eglwys Newydd ar 13 Ionawr ac yn dilyn ar lan y bedd yn Abaty Margam.
- â theulu'r diweddar R Wallis Evans a fu farw yng Ngresford ger Wrecsam ar 10 Ionawr. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel y Groes Wrecsam ar 16 Ionawr ac yn dilyn ym mynwent Eglwys Llanaber.

## Soirée i'w Chofio!

Roedd cyffro mawr yn Llys Tregarth, Lake Road West nos Lun, 8 Ionawr 2001. Unwaith eto roedd Hywel a Gwyneth Jeffreys wedi agor drysau eu catref i dros 120 o bobl - yn artistiaid, yn gyfeillion ac yn griw ffilmio.

Yn sgîl eu haelioni, cynhaliwyd noson ddifyr o adloniant yn y theatr fach a godwyd ganddynt yng nghefn y tŷ. Roedd cynulleidfa o 72 yn y theatr a bu gweddill y cyfeillion yn gwylio perfformiadau'r noson ar sgriniau teledu hwnt ac yma yn y tŷ.

Cafwyd rhaglen gynhwysfawr yn cynnwys eitemau gan Heather Jones, Rhian Owen, Iona Jones, Sioned Mair, Lisa Grug - daliwch eich anadl - Cleif Harpwood, Delwyn Siôn, Arwel ac Eleri Peleg Williams, Menai Davies - heb sôn am Delyth Medi a Chor Merched Canna (25 ohonynt!), o ïe, a chriw'r Fari Lwyd! Dyna hanner cyntaf y rhestr!

Cafwyd cyfraniadau pellach gan Jim O'Rourke, Eleri Morgan, R Alun Evans, Garry Nicholas, yr Archdderwydd Meirion Evans, Beth Leyshon ac Arfon Haines Davies - pob un yn cynnig eu doniau a'u hamser am ddim.

Adlewyrchiad arall o fwrlwm y noson oedd bod beirdd o fri wedi cyfansoddi cerddi at yr achlysur.

Codwyd dros £1600 ar y noson a'r cyfan er budd Eisteddfod Caerdydd a'r Fro 2001. Fel y crybwyllwyd eisoes, ffilmiwyd y dathlu. Felly os hoffech gopi o'r fidio cysylltwch â Hywel a Gwyneth Griffiths.

**M.T.**




## Y Monico yn Cau

Cyn y Nadolig cyhoeddwyd yn y Wasg byddai sinema'r "Monico" yn Rhiwbina yn cau tua diwedd mis Mawrth ar ôl pedair blynedd a thrigain. Dyma'r sinema draddodiadol olaf yng Nghaerdydd a agorwyd gyntaf nôl yn Ebrill 1937. Fe'i prynwyd oddi wrth Gwmni Rank gan Brian Bull, y perchennog presennol yn 1977 pan newidiwyd yr adeilad i sinema ddwy sgrîn. Bwriedir adeiladu tai ar y safle wedi i'r "Monico" gau. "Yn anffodus", meddai'r perchennog, "dydy'r lle ddim yn gallu cystadlu â'r sinemau newydd a modern megis UCI yn y Bae a'r Showcase yn Nantgarw a sôn am agor mwy o sinemau tebyg ynghanol Caerdydd." Bydd Brian Bull yn canolbwyntio ei ymdrechion rwan i sicrhau llwyddiant ei ddwy sinema yn y Barri ac un yn Swydd Gaerloyw.

## Yr Arlunydd o Benarth

Ym mis Rhagfyr y cyntaf i ymddangos yng nghyfres "Portreadau" ar S4C oedd yr arlunydd Ifor Davies a gafodd ei eni a'i fagu ym Mhenarth ac sy'n dal i fyw yno. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn Penarth cyn mynd i astudio mewn colegau celf. Bu'n gweithio yn y Swisdir a'r Alban cyn dychwelyd i Gymru i ddarlithio yng Nghasnewydd. Erbyn hyn mae o'n gweithio o'i stiwdio ym Mhenarth.

# Ledled 2001

1 Chwefror - 31 Mawrth

Canolfan y Chapter

Yn ystod mis Chwefror a Mawrth eleni bydd Canolfan y Chapter yn cyflwyno tymor o waith Cymraeg a Chymreig sef **Ledled 2001**. Bydd yn gyfle i ddathlu'r amrywiaeth gyfoethog o gelfyddyd sydd gennym yng Nghymru heddiw. Y gobaith yw y bydd tymor fel hwn yn fodd i ledaenu'r gair am Gymru i'r mynydd a'r mannau anghysbell.

Mae angen llwyfan arnom ni yng Nghymru er mwyn medru dweud ein dweud, er mwyn i ni greu a gwireddu'n breuddwydion ac i anelu am bethau amgenach na dim ond bywyd bob dydd.


Dyfan Roberts fydd yn chwarae rhan David Samwell ym *Môr Tawel*, 23 Chwefror.

Bydd y tymor hwn yn cynnwys gwaith gan gwmnïau sy'n gweithio yn y Gymraeg, Saesneg ac yn ddwyieithog. Bydd sawl ffurf gelfyddydol yn cael llais - o'r sinema, i'r theatr, i gerddoriaeth, dawns a llenyddiaeth. Bydd cyfle hefyd i ysgolion lleol gymryd rhan mewn gweithdai a thrafodaethau fel rhan o'r tymor yn ogystal.

Daw popeth ynghyd o dan faner Ledled 2001!

Os am fwy o wybodaeth cysyllter â Swyddfa Theatr Canolfan y Chapter ar (029) 20311050.

| | |
|---|---|
| **Chwefror** | |
| Nos Iau 1 | 6.15pm Cameleon (15) |
| Nos Iau 8 | 6.15pm Diwrnod Hollol Mindblowing Heddiw + trafodaeth |
| Nos Iau 15 | 6.15pm Un Nos Ola Leuad (15) + trafodaeth |
| Nos Iau 22 | 6.15pm Gadael Lenin (12) + trafodaeth |
| Nos Wener 23 | 8.00pm Theatr Y Byd - Môr Tawel |
| Nos Fercher | 8.00pm Earthfall -aD |
| **Mawrth** | |
| Nos Iau 1 | 6.15pm Rhosyn a Rhith (PG) |
| Nos Iau 1 | 8.00pm Earthfall - aD |
| Nos Wener 2 | 8.00pm Earthfall - aD |
| Nos Sadwrn 3 | 8.00pm Earthfall - aD |
| Nos Fawrth 6 | 8.00pm Beirdd y Gogledd - Syched am Sycharth |
| Nos Iau 8 | 6.15pm Noson yng nghwmni Gwyn Erfyl |
| Nos Wener 9 | 8.00pm Eddie Ladd - Scarface |
| Nos Sadwrn 10 | 8.00pm Eddie Ladd - Scarface |
| Nos Fawrth 13 | 8.00pm Arad Goch - Tafliad Carreg |
| Pnawn Mercher 14 | 1.30pm Arad Goch - Tafliad Carreg |
| Nos Iau 15 | 6.15pm Hedd Wyn + trafodaeth |
| Nos Sadwrn 17 | 6.00pm - 11.30pm "continuous sound labordy swn continuous..." |
| Nos Fawrth 20 | 8.00pm Menna Elfyn a Gwyneth Lewis |
| Nos Iau 22 | 6.15pm Ffair Animeiddio |
| Nos Wener 23 | 8.00pm Sioned Huws |
| Nos Sadwrn 24 | 8.00pm Sioned Huws |
| Nos Fawrth 27 | 8.00pm Rhosys Cochion - Ede Hud |
| Nos Iau 29 | 6.15pm Solomon a Gaenor (15) |
| Nos Wener 30 | 8.00pm Carri Munn a Karin Diamond - 'SPIN' |
| Nos Sadwrn 31 | 7.00pm Gilly Booth - Continuum |
| Nos Sadwrn 31 | Simon Whitehead - Stalks # 2 - Dilyn # 2 |
| **DIWEDD** | |

### Teithio'r Byd

Cyn y Nadolig dangoswyd dwy raglen yn y gyfres "O Flaen dy Lygaid" ar S4C sef "Am Dro" ac "Am Adra" lle gwelwyd dau gyfaill sef Trystan Llwyd Evans, Llanystumdwy a Siôn Lewis Roberts o Landrygarn, Ynys Môn ar daith o gwmpas y byd mewn Land Rover. Mae gefell Trystan sef Gwion Llwyd Evans yn byw yn Nhre Adam Caerdydd. Daw'r teulu'n wreiddiol o Benrhyndeudraeth.

### Rali'r Gymdeithas yn Heol y Frenhines

Cynhaliwyd Rali gan Gymdeithas yr Iaith o flaen cerflun Aneirin Bevan yn Heol y Frenhines, Caerdydd ar 6 Ionawr er mwyn tynnu sylw at y diffyg defnydd o'r Gymraeg gan nifer o gwmnïau preifat. Daeth tua 150 ynghyd i wrando ar nifer o anerchiadau gan aelodau amlwg o'r Gymdeithas. O ganlyniad i'r rali arestiwyd pedwar person ar gyhuddiad o greu anhrefn drwy gludo posteri a sgrifennu sloganau ar nifer o fanciau a ffenestri siopau yn y stryd fawr.

### O anrhydedd i anrhydedd

Unwaith eto daeth mwy o anrhydeddau i Tanni Grey-Thompson (bu ei mam Sulwen a'i thaid a'i nain yn aelodau yn Eglwys y Crwys am flynyddoedd) mewn seremoni Personoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn Prydain yn Llundain, nos Sul, 10 Rhagfyr, pan ddaeth hi'n drydydd yn y gystadleuaeth a hefyd yn ennill gwobr y diweddar Helen Rollason sy'n cydnabod dewrder yn wynebu pob addfyd. Enillydd y prif gystadleuaeth oedd y rhwyfwr Steve Redgrave a Denise Lewis yr athletwraig heptathelon daeth yn ail.

Yna ar 12 Rhagfyr, buodd hi yn y Cynulliad i dderbyn llongyfarchiadau'r aelodau ar ei llwyddiant yn y Chwaraeon yn Sydney. Manteisiodd ar y cyfle i annerch gan ddiolch i bawb ac i ganmol gwaith Sefydliad Cymorth Chwaraeon, Elite Cymru, y Loteri a'r cyfryngau sy wedi cefnogi nid yn unig hi ond hefyd sêr megis Jamie Baulch. Wedyn ar 8 Ionawr mewn seremoni yn Neuadd Dewi Sant dyfarnwyd prif wobr Personoliaeth y Flwyddyn BBC Cymru iddi hi, hefo Mark Williams yn ail ac Ian Barker yn drydydd. Steve Redgrave gyflwynodd y cwpan iddi hi a chyflwynwyr y noson oedd Angharad Mair ac Ian Gwyn Hughes. Ar ben hyn oll mae ei henw newydd ymddangos yn y llyfr "Pwy ydy Pwy". Llongyfarchiadau mwyaf gwresog iddi gan ddarllenwyr *Y Dinesydd.*

### Tony yn derbyn deiseb!

Ar 12 Rhagfyr bu Julie Morgan AS Gogledd Caerdydd ymhlith dirpwyaeth ar ran y *Western Mail* a aeth i 10 Stryd Downing i gyflwyno Deiseb y *Western Mail*, sy'n gofyn am flwch ticio Cymreig ar ffurflen y Cyfrifiad nesaf, i sylw Tony Blair.

### "Titus" yn Chapter

Trefnodd pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd 2001, Penarth a Dinas Powys ddangosiad o'r ffilm Titus yn sinema Canolfan Chapter ar nos Fawrth, 12 Rhagfyr. Roedd Sir Anthony Hopkins a Mathew Rhys yn actio yn y ffilm. Bydd pawb a welodd y ffilm yn meddwl ddwywaith cyn bwyta pastai gig o hyn allan!

### Derbyn Rhyddfraint y Brifddinas

Mewn seremoni yn Neuadd y Ddinas Caerdydd ar 4 Rhagfyr derbyniodd Arglwydd Cledwyn o Benrhos, cyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru ryddfraint dinas Caerdydd. Fe ydy'r pumdegwythfed person i dderbyn yr anrhydedd. Llywyddwyd y seremoni gan Russell Goodway, yr Arglwydd Faer. Yr un diwethaf i dderbyn y rhyddfraint oedd cyn Arlywydd De Affrig Nelson Mandela a hynny yn 1998. Erbyn hyn mae'r Arglwydd Cledwyn yn byw ar Ynys Môn. Cymerodd ran allweddol mewn sefydlu'r Swyddfa Gymreig yn 1964 a chefnogodd cais Caerdydd i fod yn gartref i'r Cynulliad.

### Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd




Yn anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Frenhines gwelwyd enw Eleri Houahane, prifathrawes Ysgol Gymraeg Sant Curig, y Barri, a hithau yn derbyn yr MBE am ei gwasanaeth i addysg Gymraeg. Llongyfarchiadau haeddiannol iddi hi am ei holl waith dros y blynyddoedd.

Llongyfarchiadau hefyd i Alwyn Humphreys sy wedi bod yn arwain Côr Orffiws Treforys yn hynod o lwyddiannus am un mlynedd ar hugain ar dderbyn yr MBE am ei wasanaeth i gerddoriaeth yng Nghymru. Mae yntau yn byw yng Nghaerdydd.

### Colled i ganu corawl

Gŵr a fu'n arwain Côr Meibion Pendyrus mewn sawl cyngerdd yn y brifddinas oedd y diweddar Glynne Jones, MBE a fu farw'n sydyn noswyl Nadolig yn 73 oed. Bu'r angladd ar 4 Ionawr yn Eglwys y Plwy y Santes Tudful, Merthyr ac yn dilyn yn Amlosgfa Llwydcoed, Aberdâr. Roedd yn gymeriad lliwgar a dadleugar ar brydiau ond a weithiodd yn ddiflino i godi safon cerddoriaeth yng Nghymru ac yn arbennig drwy ei gysylltiad â Chôr Pendyrus am dros ddeng mlynedd ar hugain. Bydd colled fawr ar ei ôl yng Nghymru a chydymdeimlir â'r fam a gweddill y teulu ar eu colled fawr.

### Charlotte yn dal i oleuo!

Ar 12 Rhagfyr bu Charlotte Church y gantores ifanc o'r Eglwys Newydd yn Washington yn cynnau goleuadau Nadolig y Tŷ Gwyn ym mhresenoldeb Bill Clinton yr Arlywydd. Canodd nifer o garolau wedyn a chredir bod tua 110 miliwn wedi cael cyfle i wylio'r digwyddiad ar y teledu ar draws yr Unol Daleithiau. Mae ei gyrfa yn mynd o nerth i nerth. Yna yn y Flwyddyn Newydd hi agorodd arwerthiant blynyddol Harrods yn Oxford Street yn Llundain.

### Cynllun Rygbi yn y Bontfaen

Cafodd disgyblion Ysgol Iolo Morgannwg y Bontfaen gydnabyddiaeth am eu hymdrechion wrth gymryd rhan yng nghynllun hyfforddi rygbi gan John Huw Williams, un o arweinwyr y cynllun. Dangosodd y disgyblion frwdfrydedd a sgiliau arbennig yn ystod y sesiynau hyfforddi. Alun Roberts, un o athrawon yn Ysgol Iolo sy'n helpu gyda'r hyfforddi. Da iawn Ysgol Iolo. Ymlaen bo'r nôd!

### Dyddiaduron 2002 Y Lolfa

Unrhyw wybodaeth gan Gwmnïau, Mudiadau, Cymdeithasau ac ati i gyrraedd "Y Lolfa", Talybont, Ceredigion SY24 5AP erbyn y cyntaf o Fawrth 2001.

### Oedfa Gannwyll Noswyl Nadolig

Dan nawdd Capel Bethel a Chymdeithas Gymraeg Rhiwbina, trefnodd Rhys a Gwenda Morgan oedfa gannwyll ar Noswyl Nadolig yng Nghapel Bethel a gwelwyd y capel dan sang a chanwyd nifer o garolau a gwrando ar ddarlleniadau pwrpasol a cherddi addas ac unawdau yn ystod yr oedfa.

## "Teilwng yw'r Oen" - perfformiad campus

Cafwyd noson i'w chofio yng Nghapel Ebeneser, Heol Siarl ar nos Iau, 23 Rhagfyr pan gyflwynwyd y gwaith "Teilwng yw'r Oen" gan Gôr Côrdydd sef côr o bobl ifanc y ddinas. Rhoddwyd perfformiad afieithus gan y côr o'r gwaith hwn dan arweiniad Sioned James. Canwyd nifer o garolau gan y gynulleidfa luosog dan arweiniad Alun Guy yn ystod y nos. Roedd elw'r noson yn mynd at gronfa Eisteddfod yr Urdd 2001.

## Cyfarfod Blynyddol Menter Caerdydd

Cynhaliwyd ail Gyfarfod Blynyddyl Menter Iaith Caerdydd ar nos Iau, 30 Tachwedd yn Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd. Y ddau siaradwr gwadd oedd Carwyn Jones AC ac Owen John Thomas AC. Cyflwynwyd adroddiad yn edrych yn ôl dros y flwyddyn a aeth heibio gan y Cadeirydd Richard Lewis ac yna cafwyd adroddiad sylweddol ar waith y Fenter gan y Swyddog Datblygu Gareth Kiff. Fe'i longyfarchwyd ar yr hyn a gyflawnwyd ganddo yn ystod y flwyddyn gan y Cadeirydd. Cyflwynwyd yr Adroddiad Ariannol gan y Cadeirydd yn absenoldeb y Trysorydd ac yna aethpwyd ati i ethol Swyddogion a Phwyllgor ar gyfer 2000/2001. Ail etholwyd Richard Lewis yn Gadeirydd a'r Is Gadeirydd Ceri Morgan. Yr Ysgrifennydd newydd fydd Clare Colett a'r Trysorydd fydd Einon Williams. Etholwyd y canlynol i fod yn aelodau'r Pwyllgor sef John Rowlands, Lis Miles, Penri Williams, Alun Rosser, Dafydd Bridle, Huw Garan a Siân Lewis. Methwyd ag ethol Swyddog y Wasg a gofynnwyd am i bawb feddwl am berson addas ar gyfer y swydd. Os oes rhywun yn fodlon ymgymryd â'r swydd ffoniwch Gareth Kiff yn ei swyddfa yn 11 Heol Gordon, Y Rhath, CF24 3AJ (2045 0529). Mae'r Fenter yn weithgar mewn sawl maes - cynlluniau gofal a chwarae, gweithgareddau hamdden, gweithgareddau dysgwyr, Cymraeg i oedolion, cynorthwyo cyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddefnyddio'r Gymraeg ac ati. Os hoffech wybod mwy am y gwaith neu os hoffech wirfoddoli cysylltwch â Gareth Kiff, y Swyddog Datblygu.

## Tom yn dal ar y brig

Bu Tom Jones yn canu yng Nghaerdydd cyn y Nadolig mewn 7 cyngerdd a phob tocyn wedi ei werthu ar gyfer pob perfformiad. Dywedir fod tua 35,000 o bobl wedi cael cyfle i'w weld ac yn ôl y sôn bydd e nôl yng Nghaerdydd eto yn ystod yr Haf ac yn perfformio mewn dau gyngerdd yn y castell.

## Rhodd hael i'r *Dinesydd*

Cyn y Nadolig derbyniwyd rhodd hael iawn i gronfa'r Dinesydd gan Eluned Osborne, Ystum Taf er cof am ei mam Jane Lewis (gynt Griffith), gynt o ffarm "Y Fron", Nant Peris, Gwynedd. Bu'r teulu yn byw yn Llwynfedw am flynyddoedd ac yn mynychu Capel y Crwys. Roedd Jane Lewis yn nain i Wynn a Gwilym Roberts, Rhiwbina, ac yn aelod selog o Blaid Cymru.

## Eisteddfod Roc Clwb Ifor Bach



Yn ystod mis Tachwedd a dechrau Rhagfyr 2000 bu Eisteddfod Roc yng Nghlwb Ifor Bach wedi ei threfnu gan Guto Brychan, Rheolwr Adloniant y Clwb. Cafwyd pedair rownd cyn cynnal y rownd derfynol ar nos Sadwrn, 2 Rhagfyr pan ymddangosodd bedwar o fandiau ar lwyfan y Clwb sef Zabrinski, Something Personal, Estella a Dau Cefn. Yr enillwyr oedd Dau Cefn o Fangor. Llongyfarchiadau iddyn nhw. Bwriedir cynnal Eisteddfod Roc arall eleni wedi llwyddiant yr Eisteddfod gyntaf y llynedd.

## Mae Hollywood yn galw!




Mae Ioan Gruffudd yr actor ifanc cyffrous o Gaerdydd yn dal yn y newyddion gyda'i ymddangosiad yn y ffilm Disney "102 Dalmations" sy'n ymddangos yn sinemau'r wlad ar hyn o bryd. Cyn y Nadolig bu'n ffilmio yn nhre'r Bermo yng Ngwynedd ar gyfer ei ffilm nesa sef "Happy Now". Mae sôn bydd e'n troi am Hollywood cyn bo hir felly pob lwc a llwyddiant iddo yn ei yrfa yn y fan honno.

## Marw Cerflunydd

Bu farw'r cerflunydd Frank Rober MBE, Penarth ar 3 Rhagfyr, a bu'r angladd yn Amlosgfa Llangrallo, Pen y Bont ar 8 Rhagfyr.

## Diolch Ceri!

Wedi blynyddoedd o wasanaeth i Glwb Ifor Bach mae Ceri Morgan wedi rhoi gorau i'w ddyletswyddau yn y Clwb ac ar 24 Tachwedd cynhaliwyd parti iddo yn y Clwb er mwyn dangos gwerthfawrogiad o'i hir wasanaeth. Siaradodd nifer o'i gyfeillion a'i gydweithwyr yn ogystal â sefydlydd y Clwb sef Owen John Thomas AC, yn ystod y noson gan fynegi diolch a dymuniadau gorau iddo yn y dyfodol.

## Cyflwyno ffilm er cof

Ar 23 Rhagfyr dangoswyd ffilm ar S4C o'r enw "Nadolig y Paith" a gynhyrchwyd gan Gwmni Teledu Taliesin ac a gyflwynwyd er cof am Shân Emlyn, cyn olygydd Y Dinesydd, ac ysgrifennydd diwyd Cymdeithas Cymru Ariannin am dros ugain mlynedd. Hi a gyflwynodd y syniad gwreiddiol am wneud y ffilm.

## Cyfrol newydd am y Wladfa

Cyn y Nadolig ymddangosodd lyfr o'r enw "Gwladfa Patagonia" 1865-2000 gan y diweddar R Bryn Williams gan Gwmni Carreg Gwalch a'i bris yn £4.25. Ymddangosodd y llyfr gyntaf yn 1965 adeg dathlu canmlwyddiant sefydlu'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia a diweddarwyd y llyfr presennol gan Nan Griffiths, Pentyrch gynt sef merch R Bryn Williams a gweddw Merfyn Griffiths cyn brifathro Ysgol Gyfun Llanhari. Roedd y llyfr gwreiddiol yn Gymraeg a Saesneg ond y tro hwn mae'r llyfr yn dairieithog sef yn Gymraeg, Sbaeneg, a Saesneg, ac mae'r hanes wedi ei ymestyn hyd 2000. Bellach mae Nan yn byw ym Minffordd, ger Penrhyndeudraeth ond mae ei phlant yn gweithio yma yn y brifddinas.

## Marw yn Llundain

Yn Llundain ar 13 Rhagfyr bu farw Mair Strong (Williams gynt) yn 68 oed. Hanai o Pydew ger Cyffordd Llandudno. Bu'r angladd ym Mae Colwyn ar 20 Rhagfyr ac fe'i chladdwyd yn Llangwstennin. Roedd hi'n fam i'r actores Gwyneth Strong ac yn chwaer i Gwyneth Kendrick Llanrwst. Blynyddoedd yn ôl bu Mair a Gwyneth a'u rhieni yn byw yn Llwynfedw ac yn aelodau ffyddlon yng Nghapel y Crwys. Cydymdeimlir â'r teulu oll yn eu colled.

## Llunio Geiriau

Llongyfarchiadau i Dr Gwyneth Lewis y bardd o Gaerdydd sy wedi ennill yr anrhydedd o lunio geiriau addas fydd yn ymddangos ar flaen Canolfan arfaethedig y Mileniwm y bwriedir ei agor erbyn y flwyddyn 2003 ym Mae Caerdydd. Anfonodd dros fil o bobl awgrymiadau am beth dylai ymddangos mewn arysgrif ar flaen yr adeilad ond cynigion Dr Lewis a orfu sef "Creu Gwir Fel Gwydr o Ffwrnais Awen" yn Gymraeg ac "In these stones horizons sing" yn Saesneg.

## Loteri Wythnosol Tŷ Hafan

Mae dros bymtheng mil o bobl yn talu punt yr wythnos i gymryd rhan yn y loteri hon ac y llynedd o ganlyniad cyfrannwyd £250,000 tuag at y gost o gynnal y Tŷ. Am fanylion ynglŷn ag ymuno â'r Loteri ffoniwch 01446 721521.

## Ail agor rheilffordd

Ar ôl bron i ddeugain mlynedd bwriada'r Cynulliad rhoi cyllid i ail agor rheilffordd y Fro gan adeiladu gorsafoedd newydd yn Llanilltud Fawr a'r Rhws gan greu cysylltiad rhwng Maesawyr Caerdydd a'r brifddinas. Hefyd bwriedir ail wampio Gorsaf Heol y Frenhines ynghanol y ddinas ynghyd â chynlluniau eraill i hyrwyddo teithio rhwng y Cymoedd â Chaerdydd.

## Cais Menter Iaith Caerdydd

Mae Menter Iaith Caerdydd yn awyddus i greu rhestr o bobl yn y maes adloniant sy'n perfformio drwy'r Gymraeg yn ardaloedd Caerdydd a'r Fro er mwyn dosbarthu'r rhestr i fusnesau ac ati yn y sector dwristiaeth yn y brifddinas sydd yn trefnu adloniant i'r holl ymwelwyr â Chaerdydd. Am ragor o fanylion cysylltwch â Gareth Kiff, ffôn: 029 2045 0529 neu drwy'r e-bost: menter.Caerdydd@i12.com

## Cyfleoedd Cyflogi i'r Anabl

Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer pobl anabl sy'n chwilio am waith, ac sy'n cefnogi pobl anabl yn eu gweithleoedd yn ogystal â siarad â chyflogwyr neu ddarpar gyflogwyr. Mae Bwrdd Elusen y Loteri newydd roi £148,000 i hybu'r gwasanaeth hwn yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae gwasanaeth Cymraeg ar gael a gellir cysylltu â'r Swyddfa yn 2 Heol y Frenhines drwy ffonio 2039 4363 neu ar y we: copps.Cardiff@connectfree.co.uk

## "Cefn Gwlad"

Bu Dai Jones yn ei gyfres "Cefn Gwlad" yn ymweld â theulu ffarm "Brychni" rhwng Garndolbenmaen a Llangybi yn Eifionydd ym mis Medi 1987 am y tro cyntaf gan siarad ag Eifion a Margaret Hughes a'u teulu o ddeg o blant. Yna, ar 29 Rhagfyr 2000 dychwelodd i'r ffarm i sgwrsio â'r teulu unwaith eto. Erbyn hyn mae dau o'r plant yn byw yng Nghaerdydd sef Dafydd sy'n byw yn Llaneirwg lle mae o'n gweithio i gwmni sy'n tyfu tomatos mewn tai gwydr ac yn chwarae rygbi dros dîm y Coed Duon ac mae Ruth hefyd yma yn y ddinas ers pedair blynedd ac yn teithio'r byd wrth ofalu am blant y gantores opera Rebecca Evans.

## Y Bywgraffiadur Cymreig 1951-1970

Mae tipyn o sôn wedi bod yn y papurau a'r radio a'r teledu am y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia yn ddiweddar ac yn nhre Trelew yn Nyffryn Camwy mae stryd wedi ei henwi ar ôl Abraham Mathews, Llanidloes gynt a hwyliodd draw i Batagonia yn y "Mimosa" yn 1865. Gwelir cyfeiriad ato yn y Bywgraffiadur gan mai e oedd y gweinidog cyntaf yn y Wladfa ac yn un o'r arweinwyr cynnar. Bu nôl yng Nghymru ddwywaith ac yn 1893 bu'n gofalu am gapel Heol Hafren, Treganna. Y capel lle bu Gwyn Erfyl yn weinidog arni flynyddoedd wedyn.

## Cymdeithas y Deillion

Mae Cynllun Casetiau Cymraeg i'r Deillion yn wasanaeth rhad ac am ddim ac erbyn hyn mae'r Catalog yn cynnwys 1700 o deitlau ar destunau o bob math. Am fanylion pellach cysylltwch â Rhian Evans, 1 Penlan, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1DN (Ffôn: 01267 238225).

## Sêr yn Salem 2000



Unwaith eto cafwyd llwyddiant yng Nghyngerdd Blynyddol Capel Salem Treganna ar 2 Rhagfyr er budd Cymorth Cristnogol. Cafwyd gwasanaeth Côr Canna dan arweiniad Delyth Medi, côr disgyblion Ysgol Treganna, y Grŵp Catsgam dan arweiniad Rhys Harries, a deuawd ar yr utgorn a'r piano gan Owain ac Elin Hughes, ieuenctid Capel Salem. Arweinydd y noson oedd Arfon Haines Davies a mwynhawyd y noson yn fawr gan y gynulleidfa luosog. Noddwyd y noson gan Swyddfa'r Post a gwnaed elw o ymhell dros fil o bunnoedd.

## Pwyllgor Apêl Treganna Eisteddfod 2001



Cynhelir noson gydag Owen Money a Karen Elli (Pobol y Cwm) ar nos Sadwrn, 24 Mawrth am 7.30 yng Ngwesty'r Post House (gyferbyn â'r Castell). Pris tocyn £25 sy'n cynnwys pryd tri chwrs ac adloniant. Gellir prynu tocynnau am fwrdd o ddeg am £230. Cynhelir ocsiwn hefyd yn ystod y nos. Am docynnau ffoniwch 029 2023 6201.

## Dathlu'r Hen Galan

Trefnodd Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd 2001 Rhadur a Llandaf, noson dathlu'r Hen Galan ar 12 Ionawr yn Insole Court, Llandaf yng nghwmni criw Cymdeithas Dawnsio Gwerin Caerdydd. Cafwyd noson hwyliog yn eu cwmni.

## Cymdeithas Ffynhonnau Cymru

Ar hyn o bryd mae'r Gymdeithas yn casglu gwybodaeth am hen ffynhonnau siroedd De Cymru. Os oes gennych unrhyw wybodaeth a fydd o gymorth i'r Gymdeithas yna cysylltwch ag Eirlys Gruffydd, Argel, Parc Hendy, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1TH

## Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Mae'r Gymdeithas yn chwilio am ddau berson, un ar gyfer y De a'r llall ar gyfer y Gogledd, i weithio am 22 awr yr wythnos i hybu a hyrwyddo eisteddfodau lleol yng Nghymru. Dyddiad cau am geisiadau ar gyfer y ddwy swydd ydy Chwefror 20. Am fanylion pellach cysylltwch ag Ellis Wyn Roberts, Bryn Parc, Bodffordd, Ynys Môn LL77 7LJ (Ffôn: 01248 750610).

## Fideo Uchafbwyntiau Eisteddfod Llanelli 2000



Mae Cwmni Tapas (Cymru) Cyf, Y Ganolfan Deledu, Cibyn, Caernarfon LL54 7ST wedi paratoi fideo awr a thri chwarter o hyd o uchafbwyntiau Eisteddfod Llanelli. Pris y fideo ydy £19.99 a gellwch archebu copi dros y ffôn 01286 677225 a thalu gyda cherdyn credyd neu siec.

## Eisteddfod Genedlaethol Dinbych a'r Cyffiniau

Cynigir gwobr o £3,000 i'r buddugol yn y gystadleuaeth cyfansoddi drama hir yn yr Eisteddfod eleni. Y Beirniaid fydd Alun Ffred a Tim Baker a'r dyddiad cau yw Ebrill 1. Felly ewch ati ar unwaith i gyfansoddi!

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## EGLWYS Y CRWYS

Ar waethaf tywydd anffafriol misoedd Tachwedd a Rhagfyr, ni tharfwyd yn ormodol ar weithgareddau'r Eglwys. Aeth taith hydref y Gymdeithas Ddrama i Ogledd Lloegr, cafwyd cyfle i ymweld â chartre Teulu'r Brontes yn Howarth, diwrnod yng Nghaer Efrog a chyfle i ymweld â Manceinion ar y ffordd adre. Yn ystod mis Tachwedd daeth cyfle i Gylch y Chwiorydd i wrando ar anerchiadau gan Mrs Menna Gwyn, Mrs Rhiannon Gregory a'r Parchg Meurig Llwyd. Yr un modd aelodau y Froderfa, dros y mis, cafwyd cwmni Mr Howard Goodfellow, Mr Delwyn Tibbott a Mrs Ros Williams.

Cafwyd aelodau'r Gymdeithas noson gofiadwy yn gwrando ar y Dr R Alun Evans yn darlithio ar fywyd a gwaith y diweddar Dr Sam Jones. Bu aelodau'r Ysgol Sul hefyd yn brysur yn crynhoi a chasglu blychau sgidiau ar gyfer ymgyrch Operation Christmas Child. Cyflwynwyd y rhoddion o ryw 70 bocs mewn oedfa foreol a drefnwyd ar ddechrau mis Tachwedd. Nos Lun, 6 Tachwedd, Mr Elfed Roberts, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod Genedlaethol a fu'n annerch y Grŵp Merched.

Rhoddwyd pwyslais tymhorol ar weithgareddau mis Rhagfyr. Ddydd Mercher, 13eg daeth y Parchg Denzil John i arwain myfyrdod gyda Chylch y Chwiorydd a'r Froderfa. Dilynwyd y sgwrs gyda the a mins peis yn y festri. Nos Lun 11 bu'r Grŵp Merched yn dathlu'r Nadolig gyda noson gymdeithasol o swper, carol a sgwrs.

Fore Sul yr 17eg, cafodd cynulleidfa fawr ei swyno yng Ngwasanaeth Nadolig y Plant. Cafodd y "Stori Fawr" ei pherfformio gydag urddas, dychymyg a ffresni. Ddiwrnod ynghynt bu Siôn Corn ar ei ymweliad blynyddol â pharti'r Ysgol Sul ac yn ôl pob sôn cafodd groeso teilwng a brwdfrydig.

Bu'r Gymdeithas hefyd yn cyfrannu at ddathliadau tymhorol y capel. Nos Sul, Rhagfyr 17, cynhaliwyd gwasanaeth o fawl gan ieuenctid yr Eglwys. Roedd y gwasanaeth hwn yng ngofal Mr a Mrs George Owen. Roedd Cwrdd Gweddi ddechrau'r flwyddyn hefyd yng ngofal aelodau'r Gymdeithas. Nos Wener, Ionawr 5, daeth tyrfa niferus i'r festri i fyfyrio ar ddarlleniadau, gweddïau ac emynau trothwy'r flwyddyn.

## MINNY STREET, CAERDYDD

Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â theuluoedd dwy aelod fu farw ddiwedd y flwyddyn sef Miss Kitty Williams (Y Mynydd Bychan, er mewn cartref yn y Bae ers peth amser) ar 5 Tachwedd a Mrs Glenys Williams (Llandaf) ar 9 Rhagfyr.

Cawsom y fraint o dystio i fedydd nifer o blant yr eglwys dros y misoedd diwethaf: Dafydd Tomos (mab bach Jennifer a David Rees); Megan Emily (merch fach Helen a Simon King) a Tanwen Mair (merch fach Angharad Mair a Jonathan Cray). Dymunwn pob bendith ar y teuluoedd yma.

Cawsom hefyd y fraint o groesawu dau aelod newydd ddechrau Rhagfyr: daeth Dr Hefin Jones (Treganna) atom o Lundain tra bo Mrs Rhiannon Evans (Yr Eglwys Newydd) wedi dod yn ôl atom ar ôl cyfnod yn y Gogledd. Croeso cynnes iawn i'r ddau ohonynt.

Pob dymuniad da i'r Parchg Ddr Gwilym ap Robert ar ei ymddeoliad ac i'r Parchg Ddr R Alun Evans sydd yn ei olynu fel Gweinidog ym Methel, Caerffili.

Ganol mis Rhagfyr, croesawyd Dr Dewi Lewis yn ôl atom i roi datganiad ar yr organ - y tro yma datganiad o gerddoriaeth y Nadolig - er budd Cronfa Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2001. Cawsom ein gwasanaeth Naw Llith a Charol (wedi ei drefnu, fel arfer, gan Mrs Meudwen Davies a Miss Marian Lake) wythnos cyn y Nadolig ac fe'n harweiniwyd at Ŵyl y Geni mewn gwasanaeth arbennig i'r teulu cyfan Noswyl Nadolig wedi ei drefnu gan yr Ysgol Sul. Daeth nifer dda o deuluoedd a chyfeillion ynghyd i gyd addoli yng nghwmni'r plant a'r bobl ifanc cyn cymdeithasu dros baned a mins pei yn y Festri yng nghwmni Siôn Corn! Yna, fore'r Nadolig, cawsom groeso cynnes gan gyfeillion y Crwys yn oedfa'r Nadolig, gyda'r Parchg Eifion Powell yn ein tywys at wir ystyr yr Ŵyl yn ei bregeth amserol.

## EGLWYS ANNIBYNNOL GYMRAEG Y BARRI

Fel rhan o'n paratoadau ar gyfer dathlu Gŵyl y Geni, cynhaliwyd oedfa ar y thema "Y Seren" gan wragedd yr Eglwys yn ystod mis Rhagfyr.

Yn ôl eu harfer, cyflwynodd plant a phobl ifanc yr Ysgol Sul anrhegion Nadolig i gartref plant "Ardwyn" yn Ninas Powys. "Hot Dogs" oedd ar y fwydlen ym mharti Nadolig yr Ysgol Sul eleni! - ac wedi'r parti daeth criw o bob oed ynghyd i ganu carolau o amgylch aelwydydd rhai o gleifion a henoed yr Eglwys.

Bu plant a phobl ifanc yr Ysgol Sul yn brysur paratoi ar gyfer y Nadolig yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr. Gwelwyd canlyniad eu llafur yn yr oedfa foreol 24 Rhagfyr pan gyflwynwyd o'r newydd "Drama'r Geni".

Cynhaliwyd Oedfa Llith a Charol yn yr hwyr dan arweiniad y bobl ifanc ac yng nghmwni cerddorfa'r ieuenctid.

Er yr holl ddathliadau dros yr Wyl, ni gadwodd angau draw oddi wrthym a chollwyd o'n plith Mrs Rachel Davies, ynghyd ac un o'n Diaconiaid, Mr Elfed Thomas. Cydymdeimlwn â'i teuluoedd.

Llongyfarchwn Ifor Brown, Eleri Hourahane, Mary Incledon a Sian Wingar ar eu hethol gan yr Eglwys yn ddiaconiaid.

## EGLWYS EBENESER, CAERDYDD

Unwaith eto y Nadolig hwn, bu plant yr Ysgol Sul yn paratoi bocsus o anrhegion amrywiol fel rhan o ymgyrch *Operation Christmas Child*, gyda'r rhoddion hyn yn cael eu cludo at blant llai ffodus mewn gwledydd eraill. Mae hwn yn gyfle gwerthfawr i'r plant deimlo eu bod yn rhoi rhywbeth penodol yn bersonol i rywun arall, yn enwedig trwy adael neges yn y bocs ar eu cyfer.
Ar yr un trywydd, rydym ar hyn o bryd yn casglu llyfrau Saesneg diweddar (llai na deg oed) er mwyn eu rhoi tuag at ymgyrch Book Aid International ar gyfer anghenion addysgol gwledydd tlawd. Mae blychau wedi eu gosod yng nghyntedd y capel i gasglu'r llyfrau.

Cafwyd cyfres o oedfaon arbennig yn arwain at y Nadolig, gan ddechrau ar 10 Rhagfyr efo oedfa fendithiol iawn dan ofal gwragedd yr Eglwys. Ar fore Sul, 17 Rhagfyr, perfformiwyd Drama'r Geni ar gân ac ar lafar gan blant cynradd yr Eglwys, ac yna i ddilyn cynhaliwyd parti Nadolig yr Ysgol Sul efo Siôn Corn yn ymweld â ni. Roedd oedfa'r nos yng ngofal ieuenctid yr Eglwys, efo dros ugain ohonynt yn cymeryd rhan. Ar Noswyl Nadolig cafwyd oedfa o garolau ac eitemau amrywiol gan nifer o'n haelodau, yn arwain ein meddyliau at drannoeth, pan ddaethom ynghyd ar fore'r Nadolig i ddathlu geni Iesu Grist, a'r plant yn cael gyfle i ddangos a diolch am eu hanrhegion.

Byddwn eleni yn dathlu 175 o flynyddoedd ers cychwyn achos Ebeneser yn 1826. Bydd nifer o oedfaon a gweithgareddau gennym eleni i nodi'r garreg filltir hon yn ein hanes a gwahoddwn ein cyfeillion oll i ymuno â ni yn ein blwyddyn o lawenydd a dathlu.

Rhagor ar dud. 14

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

## Bro Eirwg



### Clwb Eco Bro Eirwg

Roedd Dydd Gwener, y pedwerydd ar hugain o Dachwedd yn ddiwrnod prysur iawn i Ysgol Bro Eirwg. Dan arweiniad Clwb Eco'r ysgol fe gymerom ran yn 'Wythnos Goed Cenedlaethol Esso 2000'. Buom wrthi yn plannu nifer o goed bach gan gynnwys Sycamorwydden, Gwernen, Bedwen Arian a Chonwydden. Roedd e'n waith caled ac oer iawn, ac roedd ceisio cwblhau'r prosiect mewn hanner diwrnod yn dipyn o gamp. Roedd y coed bach yma yn cael eu plannu o amgylch terfynau'r ysgol. Buom yn plannu coed arbennig yn ein gardd. Prosiect nesaf y clwb fydd creu pwll yn ein gardd. Mi fydd y pwll yn un gwbl ddiogel oherwydd Dydd Gwener, fe ddaeth nifer o ffrindiau ein Clwb Eco at ei gilydd i blannu cylch o goed. Rhain fydd yn amgylchynnu'r pwll. Yn sgil cystadleuaeth a osodwyd i'r Adran Iau, enw'r pwll fydd' Brogadôm'. Mae'r Clwb Eco yn gweithio'n galed i geisio annog gweddill y disgyblion i barchu eu hamgylchfyd.



### Diwrnod noddi i hyrwyddo iechyd a ffitrwydd a Bro Eirwg yn codi £1500 tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Cynhaliodd yr ysgol ddiwrnod arbennig i ddangos y pwysigrwydd o gymeryd rhan mewn chwaraeon, ac i hyrwyddo iechyd a ffitrwydd. Fe ddaeth Ashley Beaver a Gareth Tompkins, dau o bencampwyr Prydain mewn acrobatig, i'r ysgol ar ddydd Iau, Tachwedd 30ain i gynnal y diwrnod.

Roedd y digwyddiad yn golygu y canlynol i'r plant:

* Hyfforddiant mewn cyfres o weithgareddau hwyliog o fewn cyrhaeddiad pob plentyn.
* Difyrrwch wrth edrych ar gyflwyniad proffesiynol gan y ddau arbenigwr.
* Cwrdd â phencampwyr acrobatig a derbyn cardiau cyrhaeddiad o lwyddiant.

Gan mai thema y diwrnod oedd iechyd a ffitrwydd fe fuom yn hyrwyddo bwyta'n iach yn ystod y dydd. Gofynnwyd i'r plant am beidio â bwyta'r canlynol ar y dydd penodedig sef diodydd ffisiog, creision a siocled. Awgrymwyd eu bod yn cael ffrwythau, salad a diodydd fel dŵr.

Roedd y diwrnod yn gyfle gwych i godi arian tuag at Eisteddfod yr Urdd.

### Ymlaen bo'r nôd!

Ar 18 Hydref enillodd tîm rygbi Bro Eirwg gystadleuaeth rygbi Cynghrair Ysgolion Caerdydd. Yn sgîl hyn bu bechgyn yr ysgol yn chwarae ysgol Thornhill, cyn y gêm fawr rhwng Cymru a Seland Newydd yn Stadiwm y Mileniwm. Roedd y profiad yn un bythgofiadwy i bawb.

**Carfan Bro Eirwg**

Marvin Heron (C), Ashley Parris, Sean Waldon, Tom Payne, Luke Regan, David Crews, Leon Williams, Lewis Harrhy, Lewis Reece, Loren Quick, Jake Sweetingham

## Pen-y-garth, Penarth

### Nadolig Llawen i Kosovo o Benarth

Cafodd 167 o blant Kosovo Nadolig mwy llawen na'r disgwyl, diolch i ymdrechion plant Penarth. Y llynedd fe gymrodd Ysgol Pen-y-Garth, Penarth, ran ym mmhrosiect 'Operation Christmas Child' Y Samariaid, sy'n trefnu dosbarthu anrhegion Nadolig i blant mewn angen dramor. Gofynnwyd i'r disgyblion lenwi bocs 'sgidiau gydag anrhegion a theganau fel rhodd i blant oedd yn annhebygol o dderbyn llwyth o barseli ar fore Nadolig. Dywedodd Prifathro Pen-y-Garth Mr Peter Davies: "Aeth y plant ati gyda brwdfrydedd i baratoi eu pecynnau ac roedd yn ddigon i godi calon i weld y llwyth o focsys lliwgar yn llenwi neuadd yr ysgol." Am fanylion pellach am Operation Christmas Child, cysylltwch â'u llinell gyswllt hwy ar 0870 787 0200.



*Disgyblion Pen-y-garth, Penarth o flaen yr anrhegion. O'r chwith: Ffion Davies, Eleri Smih, Dafydd George a Jack Evans.*

# Glantaf

## Profiad Gwaith yn yr Almaen

Wie geht's?Dyma ni'r criw ym mhrif orsaf Cologne yn yr Almaen. Rydym yn dychwelyd ar ôl cyflawni profiad gwaith buddiol mewn gwahanol feysydd. Treuliodd Rhian ac Elen (ar y dde) bythefnos yn gweithio mewn ysgolion cynradd, tra'n bod ni'n tri wedi cyrraedd yn ystod yr ail wythnos. Bu Marc yn cynorthwyo mewn canolfan ffitrwydd, gweithiodd Alys mewn swyddfa gyfreithwyr tra i Manon weithio mewn ysgol gynradd. Fe wnaethom gyfarfod yng nghanol yr wythnos am bryd o fwyd er mwyn trafod ein profiadau. Hedfanodd yr amser heibio;ond fe gawsom ni i gyd brofiad gwerth chweil, ac yn sgîl hynny, teimlwn yn fwy hyderus wrth siarad yr iaith.

**Manon Hefin**




*Marc Delvalle, Alys Bryant, Manon Hefin, Rhian Thomas, Elen Evans*

Adroddodd Owain Williams y gerdd hon o'i eiddo ei hun yng ngwasanaeth Naw Llith a Charol Glantaf yng nghapel y Tabernacl;

**Yr Anrheg**

Nadolig-amser i gofio?
Neu amser i roi ac i dderbyn anrhegion di-ri?
Misoedd o wario yn cyrraedd uchafbwynt-
Y cyffro wrth gerdded lawr y grisie ac at y goeden;
Rhwng y tinsel a'r goleuadau, y twrci a'r trimings,
Siapau onglog mewn blanced liwgar;
Tracwisg 'Nike' neu bersawr 'Tommy',
Crys 'Ralph' neu ddarlun 'Kyffin',
Llyfrau, teganau a siocoled di-ddiwedd,
Fideos, peli a dillad i'r wardrob.

Nadolig- amser i gofio?
I ddathlu dyfodiad ein Harglwydd i'r byd;
I ddathlu rhoddion drud y Doethion
Yr aur, y thus a'r myrr yn y preseb i Fab Duw.
Ond pwy gafodd yr anrheg fwyaf oll?
Dan seren wen ym Methlem dref
Fe roddwyd y rhodd ddrutaf oll;
Drutach na'r tracwisg 'Nike',
Drutach na'r persawr 'Tommy',
Drutach na'r crys 'Ralph',
Drutach na'r llun 'Kyffin'.
Do, fe gawsom yr anrheg ddrutaf erioed-
Pan ddaeth Duwdod mewn baban i'r byd.

**Owain Williams**

## I'r Panto ym Mhontypridd

Cawsom brynhawn grêt pan aethom i'r panto ym Mhontypridd. Enw'r panto oedd 'O Cryms! Dim Bârbara Bara!' ac roedd wedi'i seilio ar chwedl Llyn y Fan Fach. Mwynheuom ni yn fawr iawn. Roedd y caneuon yn dda yn enwedig yr un yn y disgo ac roedd pawb yn ymuno yn y gytgan. Mwynheuom ni y band yn chwarae ar y dechrau hefyd. Roedd llawer o effeithiau sain da er enghraifft pan oedd rhywun yn cael syniad roedd triongl yn cael ei daro.

Ein hoff gymeriad oedd Siencyn Sionc achos roedd yn fywiog ac yn ddoniol. Bob tro roedd e'n dod ar y llwyfan roedd rhaid gweiddi 'Dal dy arad Sionc' ac roedd e'n gweiddi nôl 'Dim probs, mets'. Roedd y llysfam gas yn dda hefyd. Roedd ganddi wisg fawr ddu a phob tro roedd hi'n ymddangos roedd y llwyfan yn goch. Roedden ni'n hoffi pan oedd Model Meinwen yn dod allan o'r rhaeadr ac roedd pawb yn chwibanu. Roedd yn ddoniol pan oedd mam Rhiwallon yn gwneud bara ac yn taflu'r blawd at Siencyn.

Roedd y diweddglo yn drist gan fod Model Meinwen wedi mynd nôl i'r llyn. Ond er mwyn codi calon pawb cafwyd parti a phawb yn dawnsio ar y llwyfan!

**Bethan Seymor, Siwan Long, Siwan Holland**

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Hanna Jones, blwyddyn 13 ar gael cynnig lle i astudio ym mhrifysgol Caergrawnt.

## Glantaf a'r Campau

### Pêl-rwyd

Llongyfarchiadau i dîm pêl-rwyd hŷn Ysgol Glantaf ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth y Sir yn ddiweddar. Mae'r un tîm hefyd wedi llwyddo i gyrraedd rownd derfynol yng nghystadleuaeth yr Urdd a gaiff ei chynnal yn Aberystwyth ym mis Ebrill. Bydd tîm blwyddyn 8 hefyd yn teithio i Aberystwyth i gynrychioli'r Sir.

Mae'r canlynol wedi eu dewis i chwarae pêl-rwyd i'r Sir:

Dan 18 - Angharad Jenkins, Carys Holland, Ellie Carey a Lauren Davies

Dan 14 - Mekeley Carey a Rhian Lye.

### Hoci

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar gael eu dewis i chwarae i dimoedd y Sir

Dan 14 - Gwen Nicol

Dan 16 - Eleanor East, Angharad Wenner a Rhian Meara

Dan 18 - Charlotte Davies a Bethan Haf Thomas.

Llongyfarchiadau hefyd i Rhian Meara ar gael ei dewis i garfan De Cymru.

### Sboncen

Llongyfarchiadau i James Roberts, blwyddyn 10, a Daniel Phillips, blwyddyn 7 ar gynrychioli Cymru ym Melffast yn sboncen.

### Rygbi

Llongyfarchiadau i Alun Bonello, Blwyddyn 13 ar gael ei ddewis i chwarae rygbi i dîm Crawshays a hefyd ar gael ei enwebu ar gyfer gwobr 'Chwarae Teg' sy'n cael ei noddi gan HTV ac Undeb Rybgi Cymru-pob lwc iddo.

## Glantaf ar lwyfan Gŵyl Ddrama

Yn ystod Gwyl Ddrama Flynyddol Tafod Elai yn Llanilltud Faerdre ar y 23 a'r 24 Tachwedd cafwyd pedwar disgybl o Ysgol Gyfun Glantaf yn perfformio rhannau o ddwy ddrama sef "I" gan John Owen ac "Wrth Aros am Godo" gan Samuel Beckett. Cafodd y pedwar sef Tomos Lewis, Ceri Mears, Samantha Lloyd a Laura Harries hwyl ar yr actio yn ôl y beirniad Sioned Mair a dywedodd hi eu bod yn llawn deilyngu Tlws yr Ysgolion. Llongyfarchiadau iddyn nhw a'u hyfforddwyr.

# Plasmawr

## COFIO CHRISTIAN THOMAS

Ar 23 Hydref, 2000 bu farw Christian Thomas, disgybl ym mlwyddyn 11 yr ysgol. Cydymdeimlir â'i rieni, ei chwaer Katie Thomas, ei ffrindiau a'i gydnabod ac yn sicr mae'r ysgol hefyd yn teimlo'r golled. Roedd yn ddisgybl a chanddo ddiddordeb mawr mewn gwaith celf ac mewn anifeiliaid. Yn ogystal â hyn roedd yn athletwr ac mae ei golled i dimau chwaraeon yr ysgol, yn enwedig rygbi, yn enfawr.


Ar 3 Tachwedd cynhaliwyd gwasanaeth yn yr ysgol i gofio Christian. Gwasanaeth i ddathlu ei fywyd oedd hwn a phenderfynwyd cynnal gweithgareddau i godi arian ar gyfer y 'British Heart Foundation'. Trefnwyd ras hwyl noddedig a llwyddodd y disgyblion i godi £5000. Bydd hanner yr arian yn mynd tuag at ymchwil y galon a'r hanner arall at 'Cardiac Risk in the Young'. Ar 26 Ionawr bydd Graham Henry yn ymweld â'r ysgol i gyflwyno'r siec i'r 'British Heart Foundation'. Hefyd, cynhelir 'Cyngerdd Christian' yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ar Ddydd Iau Chwefror 1af am 7.30.

## YR ACADEMI

Ar ddiwedd tymor yr Hydref yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr cynhaliwyd Sioe Gerdd gyntaf yr ysgol. Cafodd ei hysgrifennu gan Caryl Parri Jones, Myfyr Isaac a Gareth F. Williams. Rhoddwyd brîff i'r tîm ysgrifennu i greu sioe gyfoes, newydd a chafwyd hanes un ardal dwy lygaid mamau a thadau'r Mileniwm. Enw'r sioe oedd 'Yr Academi', stori yn delio â nifer o themau difrifol mewn modd digri iawn. Cafwyd cipolwg ar wleidyddion, camerau teledu, genedigaeth, llofruddiaeth a 'bodyguards' i gyd o fewn dwy awr!

Bu staff, rhieni a disgyblion yr ysgol yn fwy na pharod i helpu ac i gefnogi ym mhob maes yn ymwneud â'r cynhyrchiad. Roedd y band yn gwneud i'r holl beth swnio'n wych; Janice Ball ar y piano, Robert Jones ar y drymiau, Eifion Davies ar y bas, Steve Preston ar yr allweddellau a Myfyr Isaac ar y gitar. Roedd y ganmoliaeth yn uchel a chafwyd tair noson arbennig o lwyddiannus. Roedd hyn wedi plesio'r cast ac yn fwy na hynny Mr Wyn Jones, y Pennaeth Drama a Mrs Siân Crossan, Pennaeth Cerdd yr ysgol.

**Alex Clatworthy**



## Dathlu 25 mlynedd y Ddeddf Hawliau Cyfartal i Ferched ('Sex Discrimination Act'), Dydd Mercher, 10.1.01

Croesawyd nifer o ymwelwyr pwysig i Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yr wythnos hon er mwyn dathlu pum mlynedd ar hugain y ddeddf a sicrhaodd hawliau cyfartal i ferched. Yn eu mysg yr oedd Jane Davidson, gweinidog addysg y Cynulliad Cenedlaethol; Julie Mellor, cadeirydd y Comisiwn dros Hawliau Cyfartal ('Equal Rights Commission') dros Brydain gyfan; Kate Bennett sydd yn cynrychioli'r Comisiwn yma yng Nghaerdydd a Hugh Knight, Prif Swyddog Ysgolion Caerdydd.

Roedd tua hanner cant o ddisgyblion o flynyddoedd 9, 10 ac 11 yn bresennol yn neuadd yr ysgol yn gwrando ar y siaradwyr uchod, yn ogystal â'r Prifathro, Mr Geraint Rees a'r Pennaeth Cynorthwyol, Mrs Siriol Wilde yn trafod hanes y ddeddf a sefyllfa cyfleoedd cyfartal yn yr ysgol a thrwy Brydain. Perfformwyd dwy gân o sioe gerdd lwyddiannus yr ysgol, 'Yr Academi', gan y disgyblion a pharatowyd tê a choffi gan aelodau grwpiau Arlwyo blynyddoedd 10 ac 11.

Cafwyd cyfle i'r disgyblion ofyn cwestiynau i'r siaradwyr ynglyn â rôl y Comisiwn, yn ogystal â dyfodol hawliau merched a phobl o leiafrifoedd ethnig a chymdeithasol. Roedd gymaint o frwdfrydedd gan y disgyblion fel eu bod yn dal i holi a thrafod tra oedd yr ymwelwyr yn mwynhau eu paneidiau ar ddiwedd y bore!

## Diwrnod Peirianneg GETSET

Cafodd merched blwyddyn 9 gyfle i fynychu diwrnod peirianneg GETSET ym Mhen y Bont ym mis Tachwedd. Cawsom ein gwahodd fel ysgol i gymryd rhan mewn cystadleuaeth a fyddai'n rhoi siawns i wyth merch weld pa fath o yrfa y gallai byd peirianneg ei gynnig iddynt.

'Discovery 4' oedd enw'r tîm ac roedd rhaid cwblhau nifer o dasgau yn ymwneud â sefyllfaoedd peirianneg ar long ofod. Cafwyd bore a phrynhawn prysur a llwyddodd y merched i weithio'n gyson dda a gorffen o flaen gwedilll y timau. Y tîm oedd Lowri Jones, Siwan Rhys, Jessica Donnan, Catrin Bourke, Ffion Canning, Sian Coodye, Carly Jenkins a Katherine Gomer.

Ar ddiwedd y dydd daeth yr amser i wobrwyo. Llwyddodd y tim i gael mwy o bwyntiau na phawb arall ac enillwyd £50 ar gyfer yr ysgol.



*Llun o'r disgyblion yn mwynhau'r adeiladu.*


## Gweithdy Adeileddau

Ar ddydd Iau, 7 Rhagfyr cafodd disgyblion blwyddyn 8 gyfle i fynychu gweithdai Adeileddau a baratowyd gan y cwmni Career Paths. Rhoddwyd awr a hanner i bob grŵp gwblhau tasg a osodwyd gan yr arweinwyr.

Roedd yn rhaid i'r grwpiau adeiladu pontydd ac fel cwmniau adeiladu roedd rhaid gweithio allan cost y darnau a ddefnyddiwyd a gwerthu eu syniad i dîm o beirianegwyr. Roedd pob pont yn cael eu profi o dan bwysau (hyd at dorri ar adegau). Roedd y gystadleuaeth rhwng y timau/cwmniau yn frwd a bu'r diwrnod yn un diddorol a llwyddiannus.

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

## Y Bêl Hirgron



Er fy mod yn dra diolchgar i Olygyddion y papur hwn am adael i mi beidio ag anfon deunydd y Campau atynt erbyn y dyddiad priodol, trueni na allesid i mi gael wythnos arall y tro hwn. Bu raid iddynt gael yr hanes cyn i Gaerdydd - ac Abertawe a Llanelli - chwarae yn rownd wyth olaf Cwpan Ewrop ddiwedd Ionawr. Ni fydd y Rownd Gynderfynol cyn 20, 21 a 22 Ebrill, tybed a fydd un o'r tri chlwb yn honno. Wedi gweld y tri'n chwarae eu gornestau olaf ond un yn y Rowndiau agoriadol, yng Nghaerdydd nos Wener yn erbyn Ulster, yng Nghaerloyw pan gollodd Llanelli trwy'r gôl adlam anfoesol honno brynhawn Sadwrn, ac ar gae pêl-droed QPR yn Llundain brynhawn Sul lle collodd Abertawe, ni wyddwn pa rai o'r tri a welai Rownd yr wyth olaf. Ond oeddwn yn hyderus y byddai Caerdydd yn curo Toulouse oddi cartref, a sicrhau chwarae gartref yn y rownd honno - yr oeddynt eisoes wedi cyrraedd y Rownd Ian iddynt ennill pedair o'u pum gornest. Gau broffwyd oeddwn unwaith yn rhagor. Bûm i ar Y Strade i weld y Cochion yn sgorio'r pedwar cais hollbwysig yn eu buddugoliaeth dros Colombiers, ond y prynhawn wedyn dioddef gwylio Abertawe'n cael crasfa ym Mharis a bu'n rhaid i mi ei wneud o flaen y teledu. Yna, yn yr hwyr, edrych ymlaen ag awch at wrando ar y sylwebaeth o Doulouse a buddugoliaeth Caerdydd; gwae fi - a phan sgoriodd y Ffrancod gais cynnar, diflannai fy hyder yn raddol, er i bedair gôl cosb Neil Jenkins roi mantais o un pwynt ar yr hanner. Yn nechrau'r hanner olaf cafodd Toulouse eu hail gais, ac o hynny hyd y diwedd penyd oedd y gwrando - 18-12/31-15/38-21, cyn i Owain Williams sgorio cais gorau'r hwyr; pedwar cais i ddau a chweir, onidê, a olygai mai yng Nghaerloyw y chwaraeai Caerdydd eu gornest nesaf. Bwriadwn wylio honno yn hyderus, drachefn, y cyrhaeddai'r Brifddinas y pedwar olaf - yr unig un i'n cynrychioli yn y Rownd honno, gan nad oedd Abertawe wedi chwarae'n dda wrth golli eu dwy ornest olaf yn y Rowndiau agoriadol ac yr oedd hi'n bur debyg pan oeddwn i'n ysgrifennu'r geiriau hyn yn Mharis y byddai'n rhaid i Lanelli chwarae.

Hen dro i Gaerdydd chwarae'n wael yn Beal Faiste (Belfast) yng ngornest gyntaf y gystadleuaeth; chwaraeasant yn rhagorol yn Watford wrth guro'r Saraseniaid, a chyrraedd eu huchafbwynt gartref yn erbyn Ulster. Neil Jenkins - rhaid iddo ef gael y clod cyn cloi'r llith. Ni fûm i erioed yn credu ei fod yn ddigon da i chwarae'n faswr dros y wlad, er iddo ennill 63 o gapiau yn y safle, ond am ryw reswm neu'i gilydd, cafodd ei aileni ar gae Casnewydd Ŵyl San Steffan, lle'r sgoriodd gais ardderchog wedi iddo'i hun fylchu a derbyn pas oddi wrth gareth Thomas i gwblhau'r symudiad. Parhaodd y sglein pan sgoriodd 27 o bwyntiau yn erbyn Ulster - cais arall - ac ni allwn i feirniadu Graham Henry na'i gyd-ddewiswyr am roi cap arall iddo yng ngornest fwyaf y tymor yn erbyn y Saeson. Dyna fyddai'r prawf - ai Jenkins Rhif 10 neu Jenkins Rhif 6 ydoedd?

### Tanni eto!

Ar nos Iau, 11 Ionawr bu Tanni Grey-Thompson yn rhif 10 Heol Downing, Llundain yn cyfarfod â'r Prif Weinidog mewn derbyniad i anrhydeddu nifer o athletwyr enwog sy wedi ennill medalau yn ystod y llynedd. Un arall o'r gwahoddedigion oedd Jenny Randerson, Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg yn y Cynulliad.

## Y wawr wedi torri i Gaerdydd?



I bob golwg mae tro ar fyd wedi gwawrio i Gaerdydd ar ôl cyfnod digon diffrwyth y tymor diwetha. Y sbardun, heb unrhyw amheuaeth yw Sam Hammam - perchennog newydd y clwb - gŵr sy â phrofiad helaeth o fewn y gêm, o chwaraewyr a'r gweinyddu angenrheidiol - a pherchennog sy'n barod i wario er ceisio dyrchafu ar ddiwedd y tymor - er dydy gwario helaeth o hyd ddim yn sicrhau llwyddiant.

Ar ôl ennill ond un o'i saith gêm agoriadol cipiodd Caerdydd 30 pwynt o fewn y tair gêm ar ddeg nesaf a hyn o dan reolaeth Alan Cork a'i eilydd Ian Butterworth - gan golli ond unwaith yn y cynghrair - ac o fewn y tîm mae na ysbryd newydd o wrthod ildio a chwarae tipyn mwy creadigol.

Daeth chwaraewyr o safon sy'n dipyn uwch na'r drydedd adran i'r clwb yn Rhys Weston, Daniel Gabbidon, Gavin Gordon, Kevin Evans a James Harper i enwi ond pump ac mae mantais ychwanegol ganddynt - prin dros 20 oed yw'r pump - a does dim dwywaith fod Bobby Gould a Sam Hammam yn allweddol i'w denu i Gaerdydd oherwydd eu cysylltiadau eang o fewn y gêm.

Yn anffodus fe gollwyd Mark Bonner am y tymor ar ôl torri ei figwrn - chwaraewr dawnus, gweithgar na chafodd y clod a haeddai - ac mae'r tîm yn profi ei golled yn fawr. Efallai bod angen un chwaraewr arall - yng nghanol y cae.

Y nôd yw dyrchafu ar ddiwedd y tymor ac mae gan Gaerdydd y chwaraewyr a all sicrhau hyn - ond dylid cofio hefyd mai chwaraewyr ieuainc braidd yn ddibrofiad yw amryw o fewn y garfan ac fe allai hyn fod yn faentramgwydd - yr hen a ŵyr - yr ifanc a dybia!

Mae sibrydion hefyd gan amryw ym myd pêl-droed a rygbi mai'r cadeiryddion ariannog sy bellach yn denu'r sylw yn hytrach na'r chwaraewyr. Efallai mai gwir yw hyn ond yn Sam Hammam mae gan Gaerdydd gadeirydd gwybodus a hael sy'n gwylio pob gêm - o'r ieuenctid i'r tîm cyntaf a pha gadeirydd o'r blaen a roes dillad newydd i bob un o dimau ysgolion y ddinas o 11 oed hyd at 16 oed?

Mae'i gyfraniad i'w glwb newydd yn haeddu llwyddiant a chefnogaeth y cyhoedd.

**Howard Spiggs**

### Prentis o Gymro hefo Man U




Mae Rhodri Jones, 18 oed cyn ddisgybl yn Ysgol Glantaf ac sy ers dwy flynedd yn brentis gyda thîm pêl-droed Manchester United wedi ymddangos ar raglen ar S4C ar ôl y Nadolig yn dilyn ei yrfa hyd yn hyn. Llongyfarchiadau iddo fe a phob lwc a llwyddiant yn y dyfodol. Mae e'n fab i Paul a Gaynor Jones ac ŵyr i W J Jones, y Mynydd Bychan.

### Aelod newydd i dîm pêl-droed Bangor

Erbyn hyn mae brawd Ryan Giggs Man U sef Rhodri yn chwarae i dîm pêl-droed Dinas Bangor. Mae'r teulu yn hannu o Gaerdydd.

**Ar y CYD...** yng ngofal Lynne Davies

# Ydych chi'n ddysgwr delfrydol?

*Ceisiwch ein cwis i ddarganfod pa fath o ddysgwr ydych chi.*

1. Mae eich tiwtor chi wedi rhoi rhestr hir o eiriau i chi ddysgu fel gwaith cartef. Ydych chi'n
   (a) darllen trwy'r rhestr ychydig o weithiau, a cheisio defnyddio rhai ohonyn yn ystod yr wythnos?
   (b) treulio amser hir yn gwneud yn siwr eich bod chi'n eu gwybod i'r dim?
   (c) cadw'r ffeil yn eich bag a gwylio Emmerdale?

2. Mae'r Golygydd wedi gofyn i chi ysgrifennu erthygl ar gyfer *Y Dinesydd*. Ydych chi'n
   (a) gwrthod, gan ddweud ei fod yn rhy anodd?
   (b) treilio oriau gyda Geiriadur yr Academi yn ceisio ysgrifennu rhywbeth safonol?
   (c) meddwl am bwnc diddorol, ysgrifennu darn bach a gadael i'r Golygydd boeni am y camgymeriadau?

3. Mae Big Leaves/Dafydd Iwan/Bryn Terfel yn perfformio yng Nghaerdydd yr un noswaith â'ch dosbarth Cymraeg chi. Beth wnewch chi?
   (a) Mynd i'r cyngerdd, a cheisio siarad tipyn bach o Gymraeg yno
   (b) Mynd i'r cyngerdd, a siarad Saesneg drwy'r nos
   (c) Mynd i'r dosbarth, wrth gwrs

4. Rydych chi wedi prynu nofel Cymraeg (un sy'n addas at safon eich Cymraeg chi) ac yn dechrau ei darllen. Ydych chi'n
   (a) chwilio am ystyr bob gair newydd yn y geiriadur?
   (b) mwynhau'r stori er eich bod chi ddim yn deall popeth, ac edrych yn y geiriadur dim ond pan ydych chi ar goll yn llwyr?
   (c) darllen tudalen neu ddwy cyn ei rhoi ar y silff heb ei gorffen?

5. Rydych chi'n gwarchod plant ffrindiau un noswaith, maen nhw yn eu gwelyau, ac mae dewis o fideos gyda chi. P'un gwyliwch chi?
   (a) Pobol y Cwm neu Pam Fi Duw
   (b) Y Byd ar Bedwar (cyfres dogfennol Cymraeg)
   (c) John Cleese yn Clockwise

6. Pa gylchgrawn/gylchlythyr Cymraeg ydych chi'n ei ddarllen (ar wahân i'r *Dinesydd*)?
   (a) Barn/Golwg/Llafar Gwlad
   (b) Dim byd
   (c) Y Cymro/Cadwyn Gwent/Lingo

7. Pwy yw eich hoff fardd?
   (a) Pam Ayers
   (b) Twm Morys
   (c) R Williams Parry

8. Pan ydych chi'n mynd i'r Eisteddfod beth ydych chi'n ei wneud?
   (a) Mynd i babell y dysgwyr
   (b) Mynd i'r babell lên
   (c) Byth yn mynd i'r Eisteddfod

9. Yn y dafarn ar ôl y dosbarth, beth ydych chi'n ei wneud?
   (a) Siarad am ryw sothach yn Gymraeg
   (b) Siarad am ryw sothach yn Saesneg
   (c) Cael sgwrs yn Gymraeg am bwnc difrifol

10 Sawl Cymro Cymraeg/Cymraes Gymraeg ydych chi'n eu nabod?
   (a) neb o gwbl
   (b) 1-4
   (c) 5 neu fwy

*Scoriwch yma*

| | (a) | (b) | (c) | | (a) | (b) | (c) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | 1 | 2 | 0 | **6** | 2 | 0 | 1 |
| **2** | 0 | 2 | 1 | **7** | 0 | 1 | 2 |
| **3** | 1 | 0 | 2 | **8** | 1 | 2 | 0 |
| **4** | 2 | 1 | 0 | **9** | 1 | 0 | 2 |
| **5** | 1 | 2 | 0 | **10** | 0 | 1 | 2 |

14-20. Rydych chi'n gweithio'n galed, ond efallai eich bod chi'n cymryd pethau'n ormod o ddifrif. Ceisiwch ymlacio tipyn. Gall dysgu Cymraeg fod yn hwyl hefyd.

6-13. Rydych chi'n rhoi'r pwyslais ar fwynhau eich hunan, ac mae'n debyg eich bod chi'n dysgu'r iaith bron heb sylweddoli. Daliwch ati.

Llai na 6. Mae'n amlwg nad oes gymaint o ddiddordeb gyda chi yn yr iaith Gymraeg. Mae'n biti, achos eich bod chi'n colli profiad gwerth chweil.

i'r dim - *by heart, completely*
cylchgrawn - *magazine*
sothach - *nonsense, rubbish*
pwyslais - *emphasis*
profiad - *experience*
safonol - *learned, scholarly*
difrifol - *serious*
o ddifrif - *seriously*
sylweddoli - *to realise*
gwerth chweil - *worthwhile*

**Seminar "Cynllun dysgu Cymraeg ym Mhatagonia"**
Cynhelir y seminar ar 28 Chwefror, 2.00-3.30pm yng Nghanolfan ar gyfer Addysg Gydol Oes, Ffordd Senghennydd, Caerdydd. Manylion pellach gan Gwen Awbery ar 2087 4831/2.


## Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Noson Agored y Chweched
(ar gyfer rhieni a myfyrwyr Blwyddyn 11)

• Cwricwlwm Cyffrous gyda nifer eang o bynciau
• Canlyniadau gyda'r gorau yng Nghymru
• Adnoddau ardderchog

**Nos Iau 15 Chwefror am 7.30 pm yn neuadd yr ysgol**

Bydd croeso mawr i bawb

## Dadorchuddio cofeb

Hwyliodd Capten Scott a'i griw ar long y Terra Nova o Gaerdydd ar 15 Mehefin, 1910, am Begwn y De a'r Haf nesa mae Cymdeithas Capten Scott yn bwriadu dadorchuddio cofeb iddo wrth ddathlu canmlwyddiant y daith hanesyddol honno ar 6 Mehefin, ger yr Eglwys Norwyaidd ym Mae Caerdydd. Mae goleudy er cof am y fintai gychwynodd o Gaerdydd yn sefyll yn Llyn Parc y Rhath hefo model o'r "Terra Nova" yn dynodi cyfeiriad y tywydd ar ei ben.

## Bachgen Bach o Sblott erioed erioed!

Cafodd y newyddiadurwr enwog John Humphreys, gynt o'r Sblott, ac Ysgol Uwchradd y Bechgyn, Caerdydd ei ddewis fel gwrthrych Llyfr Coch Michael Aspel ar y rhaglen "This is your life" ar 11 Ionawr. Dechreuodd ei yrfa hefo'r "Penarth Times" cyn symud i weithio i'r "Merthyr Express" ac yna i'r BBC lle cafodd yrfa ddisglair fel gohebyd ledled y byd. Heddiw mae o'n cyflwyno'r rhaglen radio "Today" ar Radio 4 ac yn dal yn fawr ei barch. Llongyfarchiadau John Humphreys.

## Pennaeth Newyddion i'r Cynulliad

Pennaeth Newyddion newydd y Cynulliad fydd Tim Hartley sy ar hyn o bryd yn gweithio gyda BBC Wales a bydd yn dechrau yn ei swydd newydd yn Ebrill. Cafodd ei eni yn 1960 a daw o Gaerdydd. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Rhydfelen cyn ennill ei radd yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth. Cychwynodd ei yrfa gyda'r BBC fel gohebydd radio a theledu yn Llundain cyn dod yn olygydd rhaglen "Y Newyddion" sef y gwasanaeth newyddion a ddarlledir bob nos ar gyfer S4C gan y BBC. Llongyfarchiadau iddo fe yn ei swydd newydd.

## Diwrnod Trwynau Coch 2001

Eleni cynhelir Diwrnod Trwynau Coch Comic Relief ar 16 Mawrth ac mae'r elusen yn gwneud apêl ar i bawb ymuno yn yr hwyl er mwyn codi llawer o arian i gynorthwyo gwahanol brosiectau. Mae Comic Relief wedi codi dros £174 miliwn ers ei sefydlu nôl yn 1988 ac mae 190 o wahanol brosiectau yng Nghymru wedi derbyn cymorth gan yr elusen. Ar ôl cynnal y diwrnod y llynedd elwodd 19 o brosiectau yng Nghymru o dros £600,000 yn ystod y flwyddyn.

## Y Plygain ym Methesda'r Fro

Ar brynhawn Sul, 14 Ionawr, cynhaliwyd gwasanaeth plygain traddodiadol dan nawdd Cymdeithas Minny Street yng Nghapel Bethesda'r Fro, Sain Tathan. Croesawyd pawb i'r plygain gan y Parchg Eifion Powell ac yn sŵn clecian y tân coed yng ngrât y capel a goleuni lampau nwy y canwyd nifer o garolau'r Plygain gan gôr cymysg, côr dynion, côr merched, unawdwyr a deuawdwyr a'r cwbl yn ddigyfeiliant gan greu naws arbennig i'r oedfa hon.

## Symud Gorsaf yr Heddlu i Sain Ffagan

Gerallt Nash y Tyllgoed a brodor o Dŷ Ddewi ydy'r gŵr yn yr Amgueddfa yn Sain Ffagan sy'n gyfrifol am oruchwylio ail adeiladu adeiladau hanesyddol yn yr Amgueddfa ac ar hyn o bryd mae e'n brysur yn goruchwylio symud hen orsaf yr heddlu yn Ffynnon Taf a adeiladwyd yn 1894, i Sain Ffagan. Ni welir yr adeilad hwn yn ei safle newydd am ychydig o flynyddoedd gan fod yr Amgueddfa yn dal i weithio ar godi Eglwys ganol oesol o Dal y Bont ger Pontarddulais.


## BETHEL, RHIWBINA

Bu Rhagfyr yn fis eithriadol o brysur ym Methel.

Cymerodd nifer o bobol ifanc yr eglwys ran yng ngwasanaeth Sul cynta'r Adfent dan arweiniad Mrs Tamsin Llwyd Graves. Yna tro y plant oedd hi i gymeryd rhan mewn Gwasanaeth Nadolig a drefnwyd gan y gweinidog, y Parchedig Evan Morgan. Roedd aelodau o ddosbarth iau yr Ysgol Sul ymhlith y rhai fu'n cymeryd rhan, a phrynhawn y Sul hwnnw mi gawson nhw eu parti Nadolig yn y neuadd gyda Siôn Corn yn ymwelydd hynod o boblogaidd. Trefnwyd y Gwasanaeth Nadolig i'r oedolion gan Mrs Gwenda Francis a Mrs Mair Jenkins, a braf oedd gweld pob un o aelodau ifanc yr eglwys sydd yn y colegau yn cymeryd rhan.



*Mae'n amlwg bod y gweinidog, y Parchedig Evan Morgan, wrth ei fodd hefyd ar ôl derbyn dyn eira go arbennig yn anrheg gan y plant*



*Dosbarth iau Ysgol Sul Bethel, Rhiwbina wrth eu bodd yn derbyn eu hanrhegion nadolig gan Siôn Corn.*

Roedd y capel yn orlawn Noswyl y Nadolig pan gynhaliwyd Oedfa Carol a Channwyll dan nawdd y capel ac aelodau Cymdeithas Gymraeg, Rhiwbina. Ac yna Sul ola'r flwyddyn cafwyd gwasanaeth ar y cyd gydag aelodau Salem, Treganna, dan arweiniad ein gweinidog, y Parchedig Evan Morgan.

Ganol Ionawr fe ail-ddechreuwyd cynnal y cyfarfodydd ar foreau Mawrth am 10.30 dan arweiniad ein gweinidog. Mae croeso i unrhyw un i ymuno â ni.

# Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

(Rhif Cofrestru Elusennol 1079429)

## SWYDDOG DATBLYGU

***(Dwy Swydd)***

Gwahoddir ceisiadau ar gyfer dwy swydd (Gogledd a De) gan bersonau cymwys a brwdfrydig ar gyfer y gwaith o hybu a hyrwyddo eisteddfodau lleol yng Nghymru. Bydd y personau a apwyntir i'r swyddi cyfle-cyfartal hyn yn medru cyfathrebu ac ysgrifennu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg; yn meddu profiad a diddordeb mewn eisteddfodau; yn abl i gyd-weithio'n rhwydd ag eraill, ac yn meddu trwydded yrru lân. Byddai hyfedredd cyfrifiadurol hefyd yn fanteisiol.

Telir cyflog o £10,000 y flwyddyn, ynghyd â chostau teithio dros gyfnod o ddwy flynedd, yn seiliedig ar 22 awr bob wythnos.

Manylion pellach am y swyddi i'w cael gan Ellis Wyn Roberts, Bryn Parc, Bodffordd, Ynys Môn, LL77 7LJ (ffôn: 01248 750610); a bydd ceisiadau trwy lythyr am y ddwy swydd, ynghyd â dau lythyr cymeradwyaeth i'w hanfon i'r cyfeiriad uchod erbyn 20 Chwefror, 2001.

*Noddir y cynllun hwn gan Gyngor y Celfyddydau â grant Loteri 'Celfyddyd i Bawb', ynghyd ag Ymddiriedolaeth Carnegie.*

# DEINTYDD

Yn cynnig triniaeth
o dan y Gwasanaeth Iechyd (NHS)
a thriniaeth annibynnol.


*Cysylltwch â:*
**HYWEL SAMUEL,** B.D.S. (Cymru)
**RHODRI EVANS,** B.D.S. (Cymru)
28 Heol Eglwys Fair, *(drws nesaf i McDonald's)*
Canol Caerdydd.
Ffôn: 029 2037 1393

# Cyfarwyddydd Cerdd

Eglwys Dewi Sant yw eglwys Anglicanaidd Gymraeg Caerdydd. Rydym yn chwilio am organydd/côr-feistr brwdfrydig fydd yn mwynhau datblygu traddodiad cerddorol a litwrgaidd yr eglwys. Mae gennym organ "Father Willis" ardderchog a ddefnyddir ar gyfer datganiadau, darllediadau a chyngerddau yn ogystal â litwrgi'r eglwys.

*Am ragor o fanylion a swydd-ddisgrifiad, danfonwch at y ficer:*
Y Parchedig Meurig Llwyd,
51 Heath Park Avenue, Caerdydd CF14 3RF
Ffôn a Ffacs: (029) 2075 1418
E-bost: mllwyd@aol.com

**Cyfres Newydd**




## Tro ar fyd i Les?

**Talcen Caled**
**9.00**
**Bob nos Sul**
**Yn cychwyn 18 Chwefror**

**TRANSL888/889**
**www.s4c.co.uk**

**S4C**

# REES WOOD a TERRY

A ydych chi wedi cael **damwain?**

Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
02920 408800

# EISTEDDFOD GENEDLAETHOL DINBYCH A'R CYLCH

5 - 10 Awst 2001

Aros yng Ngwesty'r Beaufort Park
5 noson Cinio, gwely a brecwast

£249.00 yr un

Cludiant ddwy ffordd o Gaerdydd

Cewch eich trosglwyddo yn ddyddiol i Faes yr Eisteddfod ble fydd ein staff ar ein stondin yn barod i'ch croesawu.

Am fwy o fanylion cysylltwch â: Seren Arian
13 Y Maes, Caernarfon LL55 2NF
Ffôn: 01286 672333

Cwsmeriaid Presennol - Capel Crwys

# Talon Cymru Cyf.

*Angen cyfrifiadur neu feddalwedd?*
*I'r plant / cartref / busnes / swyddfa?*

Am gyngor anibynnol
a gwasanaeth proffesiynnol

Ffôn 029 2055 5978

e.bost Wyn.Talon@BTinternet.com

# Problemau Cyfrifiaduro?

Gwersi i ddysgwyr • Acennau Cymraeg
Prosesu geiriau • Datrys problemau
Safleoedd ar y We • Gwaith graffeg
Diagramau • Taflenni gwaith
Adfer lluniau

**(029) 2089 2520**

Y Cwmni Cyfrifiaduro Proffesiynol
www.secretcom.co.uk

# TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch
**Caerwyn Davies**
ar **029 2086820** **8**
neu **0468 973229**

## AEGIS YMGYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL CYF

*Am gyngor ariannol annibynnol cysylltwch â*

# Geraint B. Llewelyn

LL.B. B.A(ADD) MLIA (DIP)

291 FFORDD CYNCOED, CYNCOED,
CAERDYDD, CF23 6PA
FFÔN: (029) 20228223 FFACS: (029) 20761309

AELOD O DBS RHEOLAETH ARIANNOL CCC
A ORUCHWILIR GAN AWDURDOD BUDDSODDI PERSONOL